



# Polisi Cwricwlwm

## *Policy for Curriculum*

Diweddarwyd / *Updated: 06/2024*

Adolygiad Nesaf / *Next Review: 06/2027*

**Ysgol Gymraeg Y Fenni**  
Heol Dewi Sant | St. David's Road  
Y Fenni | Abergavenny  
Sir Fynwy | Monmouthshire  
NP7 6HF

**Ffôn | Tel:** 01873 852388  
**Ebost | Email:** [ysgolgybraegyfenni@monmouthshire.gov.uk](mailto:ysgolgybraegyfenni@monmouthshire.gov.uk)  
**Gwefan | Website:** [www.ysgolyfenni.co.uk](http://www.ysgolyfenni.co.uk)



## Polisi Cwricwlwm

### Nod

Bwriad y polisi yw esbonio beth fydd ffocws y cwricwlwm yn Ysgol Gymraeg Y Fenni. 'Does dim yn fwy hanfodol na bod pob plentyn a pherson ifanc yn caffael addysg ac yn cael mynediad cyflawn at y profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen arnyn nhw ym myd gwaith, ar gyfer dysgu gydol oes ac er mwyn bod yn ddinasyddion gweithredol.' (Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru. Ionawr 2024) Mi fydd yr ysgol yn cynllunio yn erbyn y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad ond y Pedwar Diben bydd yn gyrru'r cwricwlwm ymlaen gyda'r sgiliau allweddol yn sylfaen i bob agwedd o'r cwricwlwm yn ein hysgol ni. Mae'n fwy na'r hyn rydyn ni'n ei addysgu yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â *sut* rydyn ni'n ei addysgu ac, yn allweddol, *pam* ydyn ni'n ei addysgu.

### Hawliau Plant

Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 6: Mae gennych yr hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach.

Erthygl 27: Eich hawl i safon dda o fywyd.

Erthygl 28: Eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.

Erthygl 29: Eich hawl i fod y gorau y gallwch fod.

Erthygl 30: Eich hawl i ddefnyddio eich iaith eich hun.

Erthygl 31: Eich hawl i ymlacio a chwarae.

Erthygl 37: Eich hawl i gael eich trin yn deg

### Pedwar diben y Cwricwlwm:

Mae rhaid i gwricwlwm Ysgol Gymraeg Y Fenni helpu plant a phobl ifanc i gyflawni'r pedwar prif ddiben. Gweledigaeth ar y cyd yw'r Pedwar Diben, a dyma'r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r pedwar prif ddiben yn mynd i helpu plant a phobl ifanc i fod yn:

- **Ddysgwyr uchelgeisiol a galluog:** Golyga hyn eu bod nhw'n credu ynddydd nhw eu hunain a beth maen nhw'n gallu ei wneud. Maen nhw eisiau dysgu a gwella'u hunain. Mae ganddyn nhw'r sgiliau i ddysgu. Maen nhw'n gosod safonau uchel i'w hun ac yn cyfathrebu yn effeithiol.
- **Fntrus a chreadigol:** Golyga hyn eu bod nhw'n gallu bod yn greadigol a meddwl am syniadau newydd. Maen nhw'n gallu datrys problemau. Maen nhw'n gallu cymhwyso hyn yn eu gwaith. Maen nhw'n adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnyn nhw.
- **Ddinasyddion egwyddorol a gwybodus:** Golyga hyn eu bod nhw'n deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Maen nhw'n cymryd rhan yn eu cymuned. Maen nhw'n edrych ar ôl y byd. Maen nhw'n gwybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas.
- **Iach a hyderus:** Mae hyn yn meddwl bod ganddyn nhw feddwl a chorff iach. Maen nhw'n teimlo'n dda amdanydd nhw eu hunain ac am beth maen nhw'n ei gredu. Maen nhw'n deall pwysigrwydd adeiladu eu lles meddyliol ac emosiynol trwy ddatblygu hyder, gwytnwch ac empathi. Maen nhw'n ffurfio cydberthnasau cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd.

### Egwyddorion Cynllunio'r Cwricwlwm yn Ysgol Gymraeg Y Fenni:

Yn Ysgol Gymraeg Y Fenni, mae ein Cwricwlwm;

- Yn ddilys - Wedi gwreiddio yng ngwerthoedd a diwylliant Cymru
- Wedi ei seilio ar dystiolaeth - yn gwneud defnydd o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt
- Yn ymatebol - yn berthnasol i anghenion heddiw
- Yn gynhwysol - yn hawdd i bawb ei ddeall gan gwmpasu hawl pob plentyn a pherson ifanc i gael addysg o ansawdd uchel
- Yn uchelgeisiol - yn ymglyffori disgwyliadau mawr heb osod terfynau artiffisial
- Yn rymusol - galluogi pobl ifanc i wynebu heriau'n hyderus
- Yn unedig - yn caniatáu parhad a dilyniant (cam i gam)
- Yn ddiddorol - yn hybu mwynhad dysgu
- Wedi seilio ar sybsidiaredd - yn ennyn hyder ym mhawb gan gymell perchnogaeth briodol
- Yn hawdd ei drin - yn cydnabod goblygiadau o ran cael trefniadau asesu ac atebolrwydd priodol

### Y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad:

Yn Ysgol Gymraeg Y Fenni, rydym yn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn amryfal brofiadau o fewn holl feysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm.

Y Celfyddydau Mynegiannol

Yn Ysgol Gymraeg Y Fenni, bydd cyfle i blant a phobl ifanc archwilio'r celfyddydau. Bydd yr ysgol yn ysgogi ac ennyn diddordeb dysgwyr a'u cymell i ddatblygu i'r eithaf eu sgiliau creadigol ac artistig ynghyd â'u sgiliau perfformio. Maer plant yn gallu dysgu'r pethau yma drwy gymysgedd o wahanol wersi fel:

- Celf
- Dawns
- Ffilm
- Drama
- Cerddoriaeth
- Cyfryngau digidol (Golyga cyfryngau digidol unrhyw waith celf rydych chi'n ei greu drwy dechnoleg; er enghraifft, fideo, recordio sain a gwefannau).

### *Iechyd a Lles*

Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn darparu strwythur holistaidd ar gyfer deall iechyd a Lles. Bydd Ysgol Gymraeg Y Fenni yn dysgu plant a phobl ifanc sut i edrych ar ôl eu iechyd.

Golyga hyn:

- sicrhau bod ein corff yn iach.
- cadw ein meddwl yn iach.
- sicrhau perthnasoedd iach gyda phobl.
- y gallu i wneud penderfyniadau bywyd da.

Bydd y cwricwlwm hwn yn cynnwys gweithgareddau megis coginio, chwaraeon a gwersi am lesiant. Diffinir llesiant fel unrhyw beth i'w wneud gyda'ch iechyd a'ch hapusrwydd. Yn Ysgol Gymraeg Y Fenni, defnyddir gwersi penodol iechyd a lles, amseroedd cylch, hyrwyddo wythnosau iechyd meddwl cenedlaethol a gwasanaethau dosbarth er mwyn addysgu a hybu llesiant.

### *Y Dyniaethau*

Mae'r Maes hwn yn ysgogi dysgwyr i ymwneud â'r materion pwysicaf sy'n wynebu dynoliaeth, gan gynnwys cynaladwyedd a newid cymdeithasol, ac yn gymorth i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddehongli a disgrifio'r gorffennol a'r presennol. Bydd Ysgol Gymraeg Y Fenni yn dysgu plant a phobl ifanc i feddwl am y byd er mwyn eu helpu i'w ddeall yn well.

Gall hyn fod drwy bynciau fel:

- Hanes
- Daearyddiaeth
- Crefyddau, gwerthoedd a moeseg
- Busnes
- Astudiaethau Cymdeithasol

### *Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu*

Bydd Ysgol Gymraeg Y Fenni yn dysgu plant a phobl ifanc i ddeall a defnyddio gwahanol ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, Saesneg a ieithoedd modern eraill. Er, rydym yn cymryd pob cyfle i addysgu amryfal ieithoedd gan fanteiso ar gyfleoedd ac ar brofiadau ieithyddol unigryw ein disgyblion a'u teuluoedd.

Ysgol dynodedig Gymraeg yw Ysgol Gymraeg Y Fenni, felly wrth wraidd gweledigaeth yr ysgol mae'r iaith Gymraeg. Rydym yn ei hyrwyddo yn mhob elfen o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion Ysgol Gymraeg Y Fenni yn gadael yr ysgol yn ddisgyblion dwyieithog hyderus a balch a chyda gafael dda ar drydedd iaith, gyda rhai yn amlieithog.

Pan yn cyfeirio at Lythrennedd rydym yn ystyried medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu y disgyblion; medrau sydd yn eu galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas ni.

Bydd Ysgol Gymraeg Y Fenni hefyd yn dysgu ein disgyblion i ddeall a gwerthfawrogi llenyddiaeth a chreu eu llenyddiaeth eu hunain. Wrth ystyried llenyddiaeth, rhown gyfle i'r disgyblion brofi a mwynhau llyfrau, cerddi a ffilmiau.

### *Mathemateg a Rhifedd*

Bydd Ysgol Gymraeg Y Fenni yn dysgu plant a phobl ifanc i ddeall a defnyddio rhifau. Mae defnyddio rhifau mewn bywyd bob dydd yn cael ei alw yn rhifedd.

Fe fydd dysgu am Fathemateg a Rhifedd yn golygu:

- deall sut mae rhifau'n gweithio.
- deall sut mae symbolau'n gallu cael eu defnyddio a beth maen nhw'n meddwl. Symbol ydy arwydd sydd yn gallu dweud wrthy ch chi beth i'w wneud. Er enghraifft, mae'r arwydd plws yn meddwl eich bod yn adio dau rif gyda'i gilydd. Fel  $2 + 2$ . Weithau mae symbolau hefyd yn cael eu defnyddio yn lle rhifau, er enghraifft  $a - b$ .
- deall sut i fesur pethau a gweithio gyda gwahanol siapiau.
- deall sut i gasglu gwybodaeth gan ddefnyddio'r wybodaeth yma i wneud penderfyniadau.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Maes) yn gynyddol berthnasol yn y cyfleoedd y bydd ein hieuenctid ni yn eu profi, a'r dewisiadau y byddan nhw'n eu gwneud mewn bywyd. Bydd Ysgol Gymraeg Y Fenni yn dysgu plant a phobl ifanc i ddeall natur a phethau byw. Rhaid iddyn nhw ddysgu am y grymoedd o'n cwmpas. Grymoedd ydy pethau dydych chi ddim yn gallu eu gweld sydd yn effeithio arnoch chi, fel disgyrchiant.

Bydd Ysgol Gymraeg Y Fenni hefyd yn dysgu plant a phobl ifanc am sut mae technoleg yn gweithio i ddatrys problemau trwy bynciau fel bioleg, cemeg, ffiseg a gwyddoniaeth cyfrifiadurol.

### Themâu Trawsgwricwlaidd a Sgiliau ar gyfer y Cwricwlwm Cyfan:

Yn Ysgol Gymraeg Y Fenni, bydd yr athrawon yn cynllunio er mwyn sicrhau bod pob pwnc yn datblygu'r sgiliau traws-gwricwlaidd isod:

- Sgiliau llythrennedd – gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu.
- Sgiliau rhifedd – deall a defnyddio rhifau.
- Sgiliau digidol – gallu dysgu a deall technoleg. Golyga hyn y gallu i ddefnyddio dyfeisiadau digidol fel cyfrifiaduron, ffonau deallus a thabledi.

Bydd y sgiliau uchod yn allweddol at lwyddiant pob blentyn er mwyn iddynt gael y mynediad gorau posib i'r Cwricwlwm i Gymru.

### Sgiliau ehangach i'w hystyried wrth gynllunio:

- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau - mabwysiadu prosesau rhesymegol a beirniadol i ddadansoddi a deall sefyllfaoedd
- Cynllunio a Threfnu - sicrhau atebion a gweithredu syniadau
- Creadigrwydd ac Arloesedd - archwilio syniadau a mynegi barn
- Effeithiolrwydd Personol - ymddwyn mewn modd effeithiol a phriodol

### Sut bydd modd cyflawni'r uchod?

Yn gyntaf, bydd yr athrawon yn cynllunio'n ofalus yn erbyn themâu sydd yn galluogi'r ysgol i gyrraedd cydbwysedd o ran y chwe maes dysgu a phrofiad. Yn Ysgol Gymraeg Y Fenni, rhoddir pwyslais ar ddatblygu a chyfoethogi medrau Iaith, Cymhwysedd Digidol a Mathemateg y disgyblion er mwyn iddyn nhw gymhwyso y medrau hyn yn hyderus yn draws-gwricwlaidd yn y chwe maes dysgu a phrofiad. Bydd disgwyl i lechyd a llesiant ymddangos yn glir yn y cynllunio ac wrth ystyried Dyniaethau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Chelfyddydau Mynegiannol bydd hi'n bosib i ddewis thema gyda thuedd tuag at faes dysgu a phrofiad arbennig e.e. Dyniaethau gan astudio'r ardal leol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg gan ystyried dyfeisiadau ayyb. Bydd llais y disgybl yn allweddol yn y broses gynllunio.

### Llais y Disgybl

Wrth gynllunio themâu trawsgwricwlaidd neu dasgau cyfoethog, bydd mewnbyn y disgyblion wrth wraidd y cynllunio a'r addysgu a dysgu. O ganlyniad, ein gobaith yn ysgol Gymraeg Y Fenni yw y bydd y disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'r gweithgareddau a'u dysgu eu hunain. Yn gyson gydol y thema, mae'r athrawon yn ymateb i chwilfrydedd a chwestiynau y disgyblion wrth lywio'r gweithgareddau.

### Cadw y Polisi yn Gyfoes

Polisi sydd yn diwygio'n gyson yw'r polisi hwn, mae'n hanfodol caniatáu addasu a newid er mwyn gwir fanteisio ar hyblygrwydd y Cwricwlwm newydd.

Mi fydd gwaith ymchwil yr ysgol a thu hwnt yn ychwanegu at brofiadau athrawon a disgyblion.

Rydym yn cymhell ein hathrawon i fod yn arloesol er mwyn cyffroi a diwygio'r addysgeg.

Wrth lawnsio platform dysgu ar-lein Ysgol Gymraeg Y Fenni yn nhymor y Gwanwyn 2020, mae hyn wedi agor y drws i'r ysgol i gyfoethogi arferion addysgu a dysgu cyfunol. Bydd yr arferion hyn yn parhau o fewn gweithdrefnau cwricwlaidd yr ysgol.



## **Policy for Curriculum**

### **Aim**

*This policy is intended to explain the focus of the curriculum at Ysgol Gymraeg Y Fenni. 'Nothing is so essential as universal access to, and acquisition of, the experiences, knowledge and skills that our young people need for employment, lifelong learning and active citizenship.' (Introduction to Curriculum for Wales guidance. January 2024) Learning is planned against the Six Areas of Learning and Experience but the curriculum's Four Purposes curriculum drives us forward in developing key skills that underpin all aspects of the curriculum in our school. It is not simply what we teach, but how we teach and crucially, why we teach it.*

### **Children's Rights**

*Article 3: All organizations concerned with children should always do what is best for each child.*

*Article 6: You have the right to life and to grow to be healthy.*

*Article 27: Your right to a good standard of life.*

*Article 28: Your right to learn and go to school.*

*Article 29: Your right to be the best you can be.*

*Article 30: Your right to use your own language.*

*Article 31: Your right to relax and play.*

*Article 37: Your right to be treated fairly*

### **The Four Purposes of the Curriculum:**

*Ysgol Gymraeg Y Fenni's curriculum must help children and young people achieve the four main purposes. The four purposes are the shared vision and aspiration for every child and young person.*

*The four main purposes are to help children and young people become:*

- **Ambitious and Capable Learners:** *This means that they believe in themselves and what they can do. They want to learn and do better. They have the skills to learn. They set high standards for themselves and communicate effectively.*
- **Enterprising and creative Contributors:** *This means that they can be creative and think of new ideas. They can solve problems. They can apply this in their work. They recognize opportunities and take advantage of them.*
- **Ethical and informed citizens:** *This means that they understand their rights and responsibilities. They are involved in their community. They look after the world. They are knowledgeable about their culture, their community and their society.*
- **Healthy and Confident Individuals:** *This means they have a healthy mind and body. They feel good about themselves and what they believe. They understand the importance of building their mental and emotional wellbeing by developing confidence, resilience and empathy. They are formal positive relationships based on mutual trust and respect.*

### **Principles of Curriculum Planning at Ysgol Gymraeg Y Fenni**

*At Ysgol Gymraeg Y Fenni, our curriculum is:*

- *Authentic - Rooted in the values and culture of Wales*
- *Evidence-based - drawing on best practice in Wales and beyond*
- *Responsive - relevant to today's needs*
- *Inclusive - easy to understand and encompasses the right of every child and young person to a high quality education*
- *Ambitious - exaggerates high expectations without setting artificial limits*
- *Powerful - enabling young people to face challenges with confidence*
- *Unified - allows continuity and progression (step by step)*
- *Interesting - promotes enjoyment of learning*
- *Subsidiarity-based - instils confidence in everyone and encourages appropriate ownership*
- *Easy to handle - recognizes the implications of having appropriate assessment and accountability arrangements*

### **The Six Areas of Learning and Experience:**

*At Ysgol Gymraeg Y Fenni, we will ensure that pupils receive a variety of experiences in all areas of learning and experience of the curriculum.*

### **Expressive Arts**

*At Ysgol Gymraeg Y Fenni, there will be an opportunity for children and young people to explore the arts. The school will stimulate and engage learners and motivate them to develop to the maximum their creative and artistic skills together with their performance skills. They can learn these things through a mixture of different lessons such as:*

- *Art*
- *Dance*
- *Film*
- *Drama*
- *Music*

- *Digital media (Digital media means any artwork you create through technology; for example, video, audio recording and websites).*

## **Health and Wellbeing**

*The Health and Wellbeing Learning and Experience Area provides a holistic structure for understanding health and well-being. Ysgol Gymraeg Y Fenni will teach children and young people how to look after their health.*

*This means:*

- *make our body healthy.*
- *keep our mind healthy.*
- *ensure healthy relationships with people.*
- *the ability to make good life decisions.*

*This curriculum will include activities such as cooking, sports and wellbeing lessons. Wellbeing is defined as anything to do with your health and happiness. At Ysgol Gymraeg Y Fenni, specific health and wellbeing lessons, circle times, promotion of national mental health weeks and classroom assemblies are used to educate and promote wellbeing.*

## **The Humanities**

*This Area motivates learners to engage with the most important issues facing humanity, including sustainability and social change, and helps develop the skills needed to interpret and describe the past and present. Ysgol Gymraeg Y Fenni will teach children and young people to think about the world to help them understand it better.*

*This can be through topics such as:*

- *History*
- *Geography*
- *Religions, values and ethics*
- *Business*
- *Social Studies*

## **Languages, Literacy and Communication**

*Ysgol Gymraeg Y Fenni will teach children and young people to understand and use different languages, including Welsh, English and other modern languages. However, we take every opportunity to teach a variety of languages that took advantage of the unique language opportunities and experiences of our pupils and their families.*

*Ysgol Gymraeg Y Fenni is a designated Welsh medium school so at the heart of the school's vision is the Welsh language. We promote it in all aspects of the life and work of the school. Pupils at Ysgol Gymraeg Y Fenni leave the school as confident and proud bilingual pupils with a good grasp of a third language, some of which are multilingual.*

*When referring to Literacy, we consider pupils' speaking, listening, reading and writing skills. These are skills that enable them to make sense of the world around them.*

*Ysgol Gymraeg Y Fenni will also teach our pupils to understand and appreciate literature and create their own literature. When considering literature, we give pupils the opportunity to experience and enjoy books, poems and films.*

## **Mathematics and Numeracy**

*Ysgol Gymraeg Y Fenni will teach children and young people to understand and use numbers. Using numbers in everyday life is called numeracy.*

*Learning about maths and numeracy will involve:*

- *understand how numbers work.*
- *understand how symbols can be used and what they mean. A symbol is a sign that can tell you what to do. For example, the plus sign means you add two numbers together.  $2 + 2$  also sometimes as a symbol can also be used instead of numbers, for example  $-b$ .*
- *understand how to measure things and work with different shapes.*
- *understand how to gather information using this information to make decisions.*

## **Science and Technology**

*The Science and Technology Field of Learning and Experience will be increasingly relevant in the opportunities our children will experience, and the choices they will make in life. Ysgol Gymraeg Y Fenni teaches children and young people to understand nature and living things. They must learn about the forces around us. Forces are things you can't see that affect you, like gravity.*

Ysgol Gymraeg Y Fenni also teaches children and young people about how a technology works to solve problems. This can be through subjects such as biology, chemistry, physics and computer science.

### **Cross-Curricular Themes and Skills for the Whole Curriculum:**

At Ysgol Gymraeg Y Fenni, teachers will plan to ensure that each subject develops the following cross-curricular skills:

- Literacy skills - listening, speaking, reading and writing.
- Numeracy skills - understanding and using numbers.
- Digital skills - being able to learn and understand technology. This means the ability to use digital devices such as computers, smartphones and tablets.

The above skills will be key to the success of every child so they have the best possible access to the Curriculum for Wales.

### **Wider skills to consider when planning:**

- Critical thinking and problem solving - adopting logical and critical processes to analyse and understand situations
- Planning and Organizing - securing solutions and implementing ideas
- Creativity and Innovation - exploring ideas and expressing opinions
- Personal Effectiveness - behaving in an effective and appropriate manner

### **How can the above be achieved?**

Firstly, teachers plan carefully against themes that enable the school to achieve a balance of the six areas of learning and experience. At Ysgol Gymraeg Y Fenni, emphasis is placed on developing and enhancing pupils' Language, Digital Competency and Mathematics skills so that they apply these skills confidently across the curriculum in the six areas of learning and experience. Health and wellbeing will be expected to feature clearly in the planning and when considering Humanities, Science and Technology and Expressive Arts it will be possible to choose a theme with a bias towards a particular area of learning and experience e.g. Humanities studying the local area, Science and Technology considering devices etc. The pupil voice is key in the planning process.

### **Pupil Voice**

When planning cross-curricular themes or rich tasks, pupils' input will be at the heart of planning and teaching and learning. As a result, we hope at Ysgol Gymraeg Y Fenni that the pupils will take ownership of the activities and learn themselves. Throughout the theme, teachers respond to pupils' curiosity and questions while steering the activities.

### **Keeping the Policy Up to date**

This policy is constantly evolving, allowing for adaptation and change is essential in order to truly exploit the flexibility of the new Curriculum.

I will research the school and further afield will add to the experiences of teachers and pupils.

We encourage our teachers to be innovative in order to excite and reform pedagogy.

When launching an online learning platform at Ysgol Gymraeg Y Fenni in Spring 2020, this has opened the door for the school to enhance teaching practices and blended learning. These practices will continue within the school's curricular procedures.